# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 23 Medi 2014**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol **Cymru**
National Assembly for **Wales**

## Agenda
(217)v5

**1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)**
Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

**Cwestiwn Brys**
**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar flocio gwelyau ac adrannau brys gorlawn, yn dilyn yr achos trasig o fenyw a fu farw wrth aros mewn ambiwlans y tu allan i Ysbyty Treforys? EAQ(4)0482(HSS)

**2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)**

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

**Cynigion i ethol aelodau i bwyllgorau**
**NDM5575 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol John Griffiths (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn lle Rebecca Evans (Llafur).

**NDM5576 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Leighton Andrews (Llafur);

(ii) Gwenda Thomas (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol yn lle Jenny Rathbone (Llafur).

**NDM5577 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Julie James (Llafur).

**NDM5578 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Jeff Cuthbert (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle David Rees (Llafur);

(ii) Gwenda Thomas (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Julie James (Llafur).

**NDM5579 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Jeff Cuthbert (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Gwyn Price (Llafur);

(ii) Jenny Rathbone (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn lle Julie James (Llafur).

**NDM5580 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol:

(i) Alun Davies (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Leighton Anderws (Llafur);

(ii) John Griffiths (Llafur) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Rebecca Evans (Llafur).

**3 Datganiad gan Brif Weinidog Cymru: Canlyniad Refferendwm yr Alban a'i oblygiadau ar gyfer Cymru (45 munud)**

**4 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Lansio'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig yng Nghymru (45 munud)**

**5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Diwygio Llywodraeth Leol (30 munud)**

**Dogfennau Ategol**
Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni Papur Gwyn – Diwygio Llywodraeth Leol
Datganiad Ysgrifenedig – Gwahoddiad i Brif Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyflwyno cynigion ar gyfer uno gwirfoddol

**6 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Gwasanaethau Cynghori – darparu cefnogaeth ymarferol i bobl yr effeithir arnynt gan y camau i Ddiwygio Lles (30 munud)**

**Dogfen Ategol**
Dadansoddi effaith diwygiadau lles Llywodraeth y DU yng Nghymru

**7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith: Darpariaethau ar gyfer Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol (15 munud)**

**NDM5533 Alun Davies (Blaenau Gwent)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno

y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Seilwaith, sy'n ymwneud â dileu a rheoli rhywogaethau estron goresgynnol drwy gytundebau a gorchmynion rheoli rhywogaethau, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Mehefin 2014 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Gellir cael copi o'r Bil Seilwaith yma:
http://services.parliament.uk/bills/2014-15/infrastructure.html (Saesneg yn unig)

**Dogfennau Ategol**
Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol
Adroddiad Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd

**8 Dadl ar yr Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14 (60 munud)**
**NDM5568 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd a gyflawnwyd o safbwynt hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn 2013-14, fel yr amlinellir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 23 Mehefin 2014.

**Dogfen Ategol**
Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned - Adroddiad Blynyddol ar Ddatblygu Cynaliadwy 2013-14

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a gynigir yn y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn gwbl annibynnol ar Lywodraeth Cymru, y dylai gael ei benodi gan y Cynulliad Cenedlaethol ac y dylai reoli dangosyddion datblygu cynaliadwy.

**Gwelliant 2 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi sylw'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy ar rwystredigaethau o ran yr ymdrechion i gynyddu faint o ynni adnewyddadwy a gaiff ei gynhyrchu ar raddfa gymunedol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i gynnwys targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy ar raddfa gymunedol wrth gyflwyno adroddiad ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi sylw'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy nad oes unrhyw gyfeiriad at fynd i'r afael â thlodi tanwydd i wella iechyd a chyflawniad addysgol ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i adfer y Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd gyda chylch gwaith priodol a'r gallu i wneud argymhellion polisi i'r Llywodraeth er mwyn sicrhau dull mwy integredig o fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

**Cyfnod Pleidleisio**

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 24 Medi 2014

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 18 Medi 2014 i'w hateb ar 23 Medi 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Mae'r Llywydd wedi cytuno i alw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarparu gwasanaethau iechyd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed? OAQ(4)1846(FM)

**2. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ei flaenoriaethau ar gyfer trafnidiaeth yng ngorllewin Cymru dros y 12 mis nesaf? OAQ(4)1834(FM)

**3. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â chanser y coluddyn yng Nghymru?
OAQ(4)1839(FM)

**4. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghwm Cynon? OAQ(4)1836(FM)

**5. Lynne Neagle (Torfaen):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae cynllun Credyd Cynhwysol Llywodraeth y DU yn ei chael ar bobl yng Nghymru? OAQ(4)1848(FM)

**6. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisi Llywodraeth Cymru mewn perthynas â thrin canserau plentyn?
OAQ(4)1838(FM)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar weithredu adroddiad Andrews? OAQ(4)1833(FM)

**8.** **Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru):** Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o'r angen i sefydlu swydd comisiynydd pobl anabl yng Nghymru? OAQ(4)1840(FM)

**9.** **Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu cynrychioli'n llawn o fewn cyrff traws-Brydeinig a rhyngwladol? OAQ(4)1842(FM)**W**

**10.** **Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y mae rhaglen ddiwygio lles Llywodraeth y DU yn ei chael ar gymunedau yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)1843(FM)

**11.** **Jenny Rathbone (Canol Caerdydd):** Pa wybodaeth y mae'r Llywodraeth Cymru yn ei chael oddi wrth Lywodraeth Cymru am effaith diwygio lles? OAQ(4)1849(FM)

**12.** **Alun Ffred Jones (Arfon):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer cyflwyno safonau'r Gymraeg? OAQ(4)1845(FM)**W**

**13.** **William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar fynediad i drafnidiaeth gyhoeddus yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ(4)1847(FM)

**14.** **Llyr Gruffydd (Gogledd Cymru)** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddyfodol y diwydiant llaeth yng Nghymru? OAQ(4)1841(FM)**W**

**15.** **Sandy Mewies (Delyn):** Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o'r effaith y mae newidiadau i fudd-daliadau lles ar lefel y DU wedi'i chael yng Nghymru? OAQ(4)1844(FM)

# Eitem 2

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

**Dydd Mawrth 30 Medi a dydd Mercher 1 Hydref 2014**
**Dydd Mawrth 7 Hydref a dydd Mercher 8 Hydref 2014**
**Dydd Mawrth 14 Hydref a dydd Mercher 15 Hydref 2014**
*************************************************************************

**Dydd Mawrth 30 Medi 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Cyllideb Ddrafft 2015-16 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Y wybodaeth ddiweddaraf am y Rhaglen Dysgu yn y Gymru Ddigidol (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Swyddogion Cymorth Cymunedol - Flwyddyn yn Ddiweddarach (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd mewn perthynas â darpariaethau sy'n ymwneud â'r drosedd o gam-drin neu esgeulustod bwriadol gan weithwyr gofal (15 munud)
- Dadl: Darlledu gwasanaeth cyhoeddus (60 munud)

**Dydd Mercher 1 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)
- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 26 mewn perthynas â Deddfau'r Cynulliad (5 munud).
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru) (30 munud)

**Dydd Mawrth 7 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd: y Bil Cynllunio (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau: Cymwys am oes: Cynllun gwella addysg ar gyfer Cymru (45 munud)
- Datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth: Ymateb i Adroddiad Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Lansio rownd buddsoddi i arbed 2014 (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus: Swyddogion cymorth cymunedol – flwyddyn yn ddiweddarach (30 munud)
- Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 4) ar y Bil Dadreoleiddio: diwygio deddfwriaeth yn ymwneud â blaendal gan denantiaid (15 munud)

**Dydd Mercher 8 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth (45 munud)
- Cwestiynau i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (15 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar arfer gorau mewn prosesau cyllidebol (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar wasanaethau orthodontig yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)
- Dadl fer - Keith Davies (Llanelli) (30 munud)

**Dydd Mawrth 14 Hydref 2014**

- Cwestiynau Llafar y Cynulliad i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Adfywio Canol Trefi (30 munud)
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Penderfynu ar Weithdrefn) (Cymru) 2014 (15 munud)
- Dadl ar egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Uwch (Cymru) (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2013-14 (60 munud)

**Dydd Mercher 15 Hydref 2014**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)
- Cwestiynau i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

- Dadl Fer - Aled Roberts (Gogledd Cymru) (30 munud)